

# amserbeibl

## Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran      Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth



Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH  
I Samuel 20: 1-42



ADNOD  
ALLWEDDOL  
I Samuel 20: 17

Gofynnwch i rywun  
eich helpu i chwilio  
am yr adnod hon.

### Stori I Dafydd ar ffo

Roedd y Brenin Saul yn genfigennus iawn o Dafydd. Ceisiodd ei ladd sawl gwaith. Bu'n rhaid i Dafydd redeg i ffwrdd a chuddio oddi wrth Saul. Ond roedd Jonathan, mab Saul, yn dal yn ffrind da i Dafydd. Addawodd Jonathan wneud ei orau i achub bywyd Dafydd.



### C Rhowch y geiriau hyn yn y llefydd cywir.

**Dafydd    Saul    Jonathan**

- Roedd ar S \_\_\_\_\_ eisiau lladd D \_\_\_\_\_.
- Roedd D \_\_\_\_\_ a J \_\_\_\_\_ yn ffrindiau da.
- Addawodd J \_\_\_\_\_ helpu D \_\_\_\_\_.

6

Un tro, roedd y Brenin Saul yn cynnal gwledd fawr. Roedd y wledd yn para am rai diwrnodau. Roedd disgwyl i Dafydd ddod yno gan ei fod yn fab-ying-nghyfraith i Saul. Gan fod arno ofn y byddai Saul yn ceisio'i ladd, aeth Dafydd ddim yno. Ar yr ail ddiwrnod, sylwodd Saul nad oedd Dafydd yno a gofynnodd i Jonathan lle roedd e. Ceisiodd Jonathan esbonio wrth ei dad pam nad oedd Dafydd yno, ond roedd Saul yn gwrthod gwrando. Gwylltiodd Saul a thaflu gwawyffon at Jonathan am fentro cymryd ochr Dafydd.



**C Pwy oedd:**

1. Y brenin? S \_\_\_\_\_
2. Mab y brenin? J \_\_\_\_\_
3. Mab-ying-nghyfraith y brenin? D \_\_\_\_\_
4. Ddim yn y wledd? D \_\_\_\_\_

O'r diwrnod hwnnw ymlaen, roedd Jonathan yn siwr y byddai ei dad yn lladd Dafydd pe bai'n gallu ei ddal. Roedd Jonathan eisiau rhybuddio Dafydd ei fod mewn perygl felly aeth o'r wledd i chwilio amdano. Daeth Jonathan o hyd i Dafydd ei ffrind. Fuon nhw'n siarad â'i gilydd mewn cae am dipyn.

**C Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir.**

1. Aeth Jonathan o'r (dd w l e) \_\_\_\_\_ i chwilio am (f a dd y D) \_\_\_\_\_.
2. Roedd Dafydd yn (dd u c o i) \_\_\_\_\_ mewn (a c e) \_\_\_\_\_.

Doedd hi ddim yn hawdd i Jonathan ddweud wrth Dafydd fod y Brenin Saul yn ei gasáu a'i fod yn bwriadu ei ladd. Ond, gan fod Jonathan yn caru Dafydd, roedd yn ffyddlon iddo a dywedodd y gwir wrtho. Mae'r Adnod Allweddol yn dweud wrthym fod:

**Jonathan yn  
CARU Dafydd  
fel ei enaid ei  
hun.  
Lliwiwch y geiriau.**

Ymhen ychydig, roedd rhaid i Jonathan adael Dafydd. Aeth Jonathan yn ôl i'r ddinas ac aeth Dafydd yn ôl i guddio. Roedd Dafydd yn ddiolchgar bod ganddo ffrind da oedd yn fodlon achub ei fywyd!

Mae'r lesu'n fodlon bod yn ffrind i bawb ohonom ni! Mae lesu'n ein caru ni ac roedd yn barod i farw drosom ni! Pan fyddwn ni'n ymddiried yn lesu, mae'n dod yn Waredwr ac yn Ffrind i ni.

# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw \_\_\_\_\_



DARLLENWCH  
I Samuel 24: 1-22



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Effesiad 4: 32

Gofynnwch i rywun  
eich helpu i chwilio  
am yr adnod hon.

## Stori 2 Dafydd yn arbed bywyd Saul

Un diwrnod, clywodd Saul bod Dafydd yn cuddio mewn ardal lle'r oedd llawer o greigiau ac ogofâu. Aeth â 3000 o'i filwyr gorau a dechrau chwilio am Dafydd. Roedd Dafydd a'i ddynion yn cuddio ym mhen draw ogof. Daeth Saul i mewn i'r ogof heb wybod bod y dyn yr oedd yn chwilio amdano yno! "Dyma dy gyfle i gael gwared ohono," sibrydiodd dynion Dafydd wrtho. Ond nid oedd Dafydd yn barod i ladd Saul. Er ei fod yn ddyn drwg, roedd Duw wedi'wneud yn frenin dros y bobl. Byddai ei ladd yn bechod yng ngolwg Duw.



### C Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn GYWIR neu'n ANGHYWIR.

1. Aeth Dafydd a'i ddynion i guddio mewn coedwig.
2. Aeth Saul â 3000 o ddynion gydag ef i chwilio am Dafydd.
3. Gwrthododd Dafydd ladd Saul am ei fod yn gwybod y byddai'n anghywir.

6




Ond aeth Dafydd at Saul yn dawel bach a thorri darn o'i gôt. Yna, aeth yn ôl yn dawel bach i'r tywyllwch ym mhen draw'r ogof. Arhosodd i Saul adael yr ogof. Wedyn, aeth Dafydd â'r darn o'r gôt i geg yr ogof. Gwaeddodd yn uchel ar y brenin. Clywodd hwnnw ef a throi i edrych arno. Cafodd dipyn o sioc o weld Dafydd yn sefyll yno a darn o'i gôt yn ei law!

**C Atebwch y cwestiynau hyn.**

1. Pwy oedd y cyntaf i adael yr ogof?
2. Beth aeth Dafydd gydag ef o'r ogof?

.....  
.....

“Edrych beth sydd gen i,” gwaeddodd Dafydd, â'r darn o gôt Saul yn ei law. “Allwn i fod wedi dy ladd di, ond wnes i ddim. Pam wyt ti'n ceisio fy lladd i? Dydw i ddim wedi gwneud drwg i ti.” Ceisiodd Dafydd resymu â'r Brenin Saul. Sylweddolodd y brenin fod Dafydd wedi bod yn dda wrtho ac y gallai fod wedi'i ladd. Newidiodd ei feddwl a rhoi'r gorau i geisio lladd Dafydd (am dipyn bach, o leiaf!) ac aeth yn ôl i'w balas. Roedd Dafydd yn barod i faddau i Saul. Doedd e ddim eisiau talu 'nôl iddo. Mae Duw eisiau maddau i ni am y pethau drwg rydyn ni wedi'u gwneud. Mae'n gallu gwneud hynny achos bod lesu wedi marw dros ein pechodau ni.



**C Llanwch y bylchau i ateb y cwestiynau hyn.**

1. Beth mae Duw eisiau ei wneud i ni? M \_\_\_\_\_ ein p \_\_\_\_\_.
2. Pwy fu farw drosom ni? Y\_ A \_\_\_\_\_ I \_\_\_\_\_.

Pan gredwn yn yr Arglwydd lesu, mae Duw yn maddau ein pechodau ni. Dylen ninnau geisio maddau i bobl eraill sy'n gwneud pethau drwg i ni hefyd.

**C Lliwiwch y llythrennau yn yr Adnod Allweddol sy'n dweud wrthym sut i ymddwyn:**

“Byddwch yn dirion wrth eich gilydd,

**yn maddau  
i'ch gilydd**

**fel y maddeuodd Duw yng Nghrist i chi.”**

# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw \_\_\_\_\_



DARLLENWCH  
I Samuel 31: 1-6  
a 2 Samuel 5: 1-5




ADNOD  
ALLWEDDOL  
2 Samuel 5: 4

Gofynnwch i rywun  
eich helpu i chwilio  
am yr adnod hon.

## Stori 3 Dafydd yn dod yn frenin

Roedd y brenin Saul a'i filwyr mewn rhyfel.



**C** Ysgrifennwch lythyren gyntaf y pethau uchod  
i gael gwybod pwy oedd eu gelynion.



4

Roedd yn frwydr ffyrnig. Cafodd tri o feibion y Brenin Saul eu lladd. Jonathan, ffrind Dafydd, oedd un ohonyн nhw.

**C** Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn GYWIR  
neu'n ANGHYWIR.

- Roedd yr Amalaciaid yn ymladd yn erbyn y Brenin Saul. ....
- Cafodd tri o feibion Saul eu lladd. ....
- Chafodd Jonathan mo'i anafu yn y frwydr. ....
- Roedd Dafydd a Jonathan yn ffrindiau da. ....

4



Cafodd Saul ei anafu'n ddrwg gan saeth. Gofynnodd i un o'i filwyr dynnu ei gleddyf a'i ladd. Roedd arno eisiau i'r milwr ei ladd rhag i'r Philistiaid ei ddal a'i arteithio. Ond doedd y milwr ddim yn fodlon lladd y brenin. Felly cymerodd Saul ei gleddyf ei hun a syrthio arno a marw.

**C Ticiwch yr atebion cywir.**

**Pwy laddodd y Brenin Saul?**

Y Philistiaid  Un o'i filwyr ei hunan  Ef ei hunan

**Beth laddodd y Brenin Saul?**

Saeth  Cleddyf  Gwaywffon

4

Roedd Dafydd yn drist iawn pan glywodd fod Saul a Jonathan wedi marw. Ysgrifennodd ddarn o farddoniaeth i gofio amdanyn nhw. Chwiliwch am y gerdd yn eich Beibl – 2 Samuel 1: 17-27. Yn ddi, mae Dafydd yn cofio am gariad mawr Jonathan tuag ato. Byddai byth yn anghofio hynny! Ddylen ni ddim anghofio am gariad mawr lesu atom ni! Wrth feddwl am lesu, ysgrifennodd Paul yn y Testament Newydd:-



‘‘Mab Duw a’m  
carodd i ac a’i  
rhoddodd ei  
hunan i farw  
dros of i.’’

6

**Galatiaid 2:20**

**Lliwiwch y geiriau**

Cyn hir, cafodd brenin newydd ei ddewis. Dafydd oedd ei enw! Roedd blynnyddoedd wedi mynd heibio ers i Samuel ei eneinio ag olew i ddangos y byddai'n frenin rhyw ddiwrnod! Ers hynny, roedd Saul wedi bod yn chwilio amdaner er mwyn ei ladd, ond doedd Duw ddim wedi'i adael. Nawr, roedd addewid Duw yn dod yn wir. Roedd Dafydd yn 30 oed pan ddaeth yn frenin. Bu'n frenin dros bobl Israel am 40 mlynedd.

2

**C Rhowch y rhifau cywir yn y bylchau.**

1. Roedd Dafydd yn \_\_\_\_ oed pan ddaeth yn frenin.
2. Bu'n frenin am \_\_\_\_ o flynyddoedd.

Beth bynnag oedd yn digwydd, roedd Dafydd yn ymddiried yn Nuw. Os gwnawn ni hynny, fe welwn ei fod ef yn ein helpu ni.

# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw \_\_\_\_\_



DARLLENWCH  
2 Samuel 9: 1-13



ADNOD  
ALLWEDDOL  
2 Samuel 9: 7

Gofynnwch i rywun  
eich helpu i chwilio  
am yr adnod hon.


## Stori 4 Dafydd a Meffiboseth

Mab Jonathan ac âŵr y Brenin Saul oedd Meffiboseth. Pump oed oedd Meffiboseth pan gafodd ei dad a'i dad-cu eu lladd mewn brwydr yn erbyn y Philistiaid. (Mae'r hanes yn stori 3). Ar yr un diwrnod, cafodd Meffiboseth ddamwain gas ac anafu ei draed. Wedi hynny, roedd yn gloff.

**C Pwy oedd tad Meffiboseth?**

J \_\_\_\_\_

**Pwy oedd tad-cu Meffiboseth? S \_\_\_\_\_**



**Beth oedd yn bod â Meffiboseth? Roedd yn g \_\_\_\_\_**

Roedd Meffiboseth yn byw mewn rhan unig o'r wlad. Doedd neb llawer yn gwybod amdano ond un diwrnod daeth y Brenin Dafydd o hyd iddo a galw arno i ddod i'r palas.

Roedd Meffiboseth yn ddyn ifanc erbyn hyn. Mae'n siwr ei fod yn meddwl tybed pam yr oedd Dafydd wedi galw amdano. Efallai ei fod yn meddwl bod Dafydd yn mynd i ddial arno am y drafferth a achoswyd gan ei dad-cu, Saul!

Pan gyrhaeddodd Meffiboseth i'r palas, gwelodd nad oedd ganddo ddim i'w ofni. Roedd y brenin eisiau bod yn garedig wrtho.

6



**Dyweddodd y brenin,  
‘‘Rwy  
eisiau bod  
yn garedig  
i ti.’’**

Lliwiwch y llun a'r geiriau.

5

Doedd Dafydd ddim yn gallu anghofio ei ffrind Jonathan. Yn wir, roedd wedi addo y byddai'n garedig i deulu Jonathan "am byth"! (Mae'r hanes yn I Samuel 20:15). Yn awr, flynyddoedd yn ddiweddarach, cofiodd Dafydd ei addewid. Yr unig ffordd y gallai gadw'r addewid oedd bod yn garedig wrth Meffiboseth.

**C Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn GYWIR neu'n ANGHYWIR.**

Galwodd Dafydd Meffiboseth i'r palas er mwyn:-

1. ei ladd. ....
2. cadw ei addewid i Jonathan. ....
3. talu nôl am y ffordd roedd ei dad-cu wedi'i drin. ....
4. bod yn garedig wrtho. ....

4

Roedd gan y Brenin Dafydd gynllun ar gyfer Meffiboseth. I ddechrau, rhoddodd holl dir ei dad-cu, y Brenin Saul, iddo. Hefyd, daeth â dynion i aredig y tir, hau'r cnydau, a chynaeafu'r cnwd. Ar ben hynny, cyhoeddodd y brenin y byddai Meffiboseth yn byw gydag ef yn Jerwsalem ac y byddai'n bwyta gydag ef bob dydd fel pe baïn un o feibion y brenin



**C Llanwch y bylchau.**

**Saul      Dafydd      Jonathan      Meffiboseth**

1. Rhoddodd y Brenin Dafydd y tir a oedd yn eiddo i \_\_\_\_\_ i \_\_\_\_\_. \_\_\_\_\_.
2. Bob dydd, roedd \_\_\_\_\_ yn bwyta gyda'r brenin \_\_\_\_\_. \_\_\_\_\_.
3. Roedd Dafydd yn garedig wrth Meffiboseth er mwyn \_\_\_\_\_. \_\_\_\_\_.

5

Mae'r stori hon yn ein helpu i ddeall bod Duw yn gallu bod yn garedig wrthon ni trwy faddau ein pechodau ni a'n gwneud ni yn rhan o'i deulu. Mae'n gallu gwneud hyn oherwydd bod lesu Grist wedi marw dros ein pechodau.

**cyfanswm**

**Marciau**  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

**Cyfanswm**

**Cyfanswm Llawn**

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, PO Box 42, Penarth, CF64 3YD. Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffôn i 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.

Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts. Cyfres lawn o wersi dros dair blynnedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Powys LL53 6SH ☎ 01766 819120